



Sut i gynnal sesiwn Carioci Barddoniaeth yn eich siop lyfrau chi

Crëwyd gan **Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth** a **Chyngor Llyfrau Cymru**, gyda **Sefydliad Forward Arts** a **Llyfrgell Barddoniaeth yr Alban**

Cynhelir **Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth 2018** ar y 4ydd o Hydref a'r thema yw **NEWID**. Gyda digwyddiadau, dathliadau a gweithgareddau arbennig yn cael eu cynnal ar hyd a lled gwledydd Prydain, mae'n gyfle i bawb ddarllen, rhannu a mwynhau barddoniaeth.

Wrth gwrs, mae yna resymau da dros gynnwys barddoniaeth yn nigwyddiadau eich siop lyfrau chi bob dydd o'r flwyddyn: mae rhannu barddoniaeth yn hybu empathi a dealltwriaeth rhwng pobl, mae'n atgyfnerthu cymunedau – a gall fod yn noson allan hwyliog iawn!

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys awgrymiadau ar sut i gynnal grwpiau darllen barddoniaeth anffurfiol er mwyn i bawb sy'n cyfranogi deimlo'n hamddenol ac yn hapus i ymgysylltu â'r digwyddiadau.

Dyma yw **Carioci Barddoniaeth**: nid yw'n ddigwyddiad gyda beirdd yn darllen, ond yn gyfle i gwsmeriaid a ffrindiau ddod at ei gilydd, darllen a thrafod eu hoff gerddi a darganfod rhai newydd.

CARIOCI BARDDONIAETH: CERDDI AR LAFAR

Meddylwch am gerddi fel ysgogiad ar gyfer pob math o atgofion a sgysiau.

CWESTIYNAU A STORIÂU: Trefnu grwpiau darllen a thrafod barddoniaeth

Mae sgysiau am gerddi a barddoniaeth yn ymwneud yn llwyr â storïau, p'un a yw darllenydd yn adrodd stori am y modd y mae cerdd benodol wedi bod yn rhan o'u bywydau ers blynyddoedd, neu grŵp yn rhannu'r antur o ddarllen cerdd newydd.

Drwy rannu cerdd boblogaidd, mae darllenwyr yn aml yn rhannu rhan ohonynt eu hunain. Mae gofyn i bobl ddod â'u hoff gerddi gyda hwy yn ffordd wych o greu awyrgylch cyfforddus a hamddenol. Wrth ymateb i bob cerdd, y cyfan sydd angen i bobl ei ddweud yw 'Rwy'n hoffi hynna' neu 'Mae'n fy atgoffa o ...', neu ddim ond eistedd yn ôl a mwynhau gwrando.

Carioci Barddoniaeth

Diben a phroses y sesiwn

- mwynhau darllen a thrafod cerddi ac ystyried beth sy'n gwneud i chi eu hoffi
- mwynhau rhannu syniadau gyda darllenwyr eraill
- treulio amser yn archwilio ffyrdd gwahanol o feddwl am gerddi
- teimlo'n gyfforddus ynglŷn â thrafod cerddi, beth bynnag yr ydych yn ei wybod – neu'n poeni nad ydych yn ei wybod

Paratoi

Paratowch ddigon i fod yn gyfforddus:

- Gwnewch yn siŵr fod gennych ddetholiad o gerddi, rhag ofn na fydd llawer o ddarllenwyr yn dod ymlaen i ddechrau.
- Mae trefnu twba lwcus barddoniaeth yn hwyl – gadewch i aelodau'r grŵp ddewis cerddi ar hap allan o het, yna eu darllen a'u trafod.
- Paratowch gerdd i ddechrau a cherdd i orffen. Ewch i wefan **Barddas**, neu dudalen Cerddi Cymru ar Facebook, neu i dudalennau Bardd y Mis a'r Talwrn ar wefan BBC Radio Cymru am awgrymiadau.
- Wrth i chi ddarllen y cerddi, nodwch y cwestiynau yr ydych eisiau holi eich hun yn eu cylch, a'r synau a'r geiriau sy'n ennyn eich diddordeb, eich cyffroi, eich ysgytio neu'n eich drysu. Dechreuwch yn syml a phenodol.
- Dylai 4 cerdd fod yn ddigon ar gyfer sesiwn 1 awr o hyd, ond peidiwch â synnu os na fyddwch ond yn trafod 2 neu 3 ohonynt.

Lledaenu'r gair

- Paratowch hysbysiadau cyhoeddusrwydd – posteri yn y siop, taflenni wedi'u gosod mewn llyfrau, ar-lein, ar y cyfryngau cymdeithasol, hysbysiadau ar lafar, drwy grwpiau/sefydliadau/leoliadau presennol.
- Cynigiwch thema eang – y tymhorau/y tywydd, yr ardal leol, galwedigaethau, bwyd, gwyliau.
- Yn y deunydd cyhoeddusrwydd, estynnwch wahoddiad i bobl ddod â'u hoff gerdd gyda hwy, ond esboniwch yn glir y gall pobl ddod draw a dim ond mwynhau'r cerddi os ydynt yn dymuno: nid oes RHAID iddynt ddod â cherdd gyda hwy.
- Esboniwch yn glir bod hyn yn gyfle i rannu cerddi sydd eisoes wedi'u hysgrifennu, yn hytrach nag yn grŵp ar gyfer rhoi adborth i bobl sydd wedi ysgrifennu cerdd. (Os byddwch yn croesawu cerddi y mae pobl wedi'u hysgrifennu eu hunain, esboniwch hynny'n glir hefyd – efallai y byddwch am nodi uchafswm hyd.)

Yr Amgylchedd

- Trefnwch ardal gyfforddus gyda lluniaeth.
- Gosodwch lyfrau barddoniaeth gerllaw er mwyn i bobl allu pori drwyddynt ymlaen llaw, neu ddod o hyd i gerdd y maent yn ceisio ei chofio yn ystod y sesiwn. Gallai hyn demtio pobl i brynu ar y noson!

Y Rhaglen

Yn ôl maint y gynulleidfa a'r lefel o ffurfioldeb, penderfynwch sut y byddwch yn gwahodd cyfraniadau – siaradwch â phawb ymlaen llaw a gwnewch restr o bwy sy'n awyddus i ddarllen – a sut y byddwch yn ymdopi os oes gennych fwy na'r disgwyl; neu gyda grŵp llai, gallwch chi ddechrau'r broses yn syml drwy eu croesawu i'r digwyddiad â cherddi agoriadol, yna gwahodd cyfraniadau.

Dechrau

- Gair o groeso – diolchwch i bawb am ddod, a chyflwynwch eich hun.
- Rhowch gyflwyniad cryno, a gofynnwch eich cwestiwn agoriadol (gweler yr adrannau nesaf).
- Sicrhewch y darllenwyr eich bod yn croesawu safbwyntiau gwahanol, ac nad yw gwybodaeth am farddoniaeth yn hollbwysig.
- Paratowch gopïau wedi'u llungopïo o gerddi*, neu gallwch eu lawrlwytho.
- Dylech gydnabod y ffynhonnell – teitl y llyfr, y bardd, y cyhoeddwr a'r dyddiad ar lungopïau. Casglwch y llungopïau ar y diwedd i'w hailgylchu – ac anogwch y defnyddwyr i ystyried prynu'r llyfr(au) ar ôl y sesiwn!

Yr Argraffiadau Cyntaf

- Gofynnwch a hoffai rhywun ddarllen cerdd ar lafar.
- Diolchwch iddynt, a gofynnwch eich cwestiwn agoriadol (gweler yr adrannau nesaf).
- Gofynnwch a allai rhywun arall ddarllen y gerdd eto, er mwyn i bawb allu gwrandio gyda'ch cwestiwn chi mewn cof.

Hanner Ffordd

- Siaradwch lai a llai yn ystod y sesiwn, ac eithrio i gadw'r sgwrs i fynd gyda chwestiynau newydd.
- Os bydd rhywun yn gofyn cwestiwn uniongyrchol i chi, cyfeiriwch y cwestiwn yn ysgafn yn ôl i'r grŵp – 'dyna gwestiwn da, pam ydych chi'n ei ofyn?', 'beth yw barn pawb arall?'. Rydych chi yno i alluogi'r drafodaeth, er ei bod yn demtasiwn i bobl droi atoch chi fel awdurdod ar y gerdd.
- Byddwch yn ddyfarnwr – gwnewch yn siŵr fod y drafodaeth yn canolbwyntio ar y gerdd, gan wneud yn siŵr fod pawb yn cael cyfle i siarad os ydynt yn dymuno (efallai na fyddant eisiau gwneud ar y dechrau, ond gwyliwch am arwyddion drwy'r amser a yw rhywun am siarad yn ddiweddarach).
- Dylech drin pob sylw fel un diddorol, a chynnig cyfle i bawb eu hystyried, waeth pa mor betrus y maent yn cael eu cynnig.

**Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi cydnabyddiaeth briodol ac yn sicrhau bod y gerdd yr ydych yn ei thrafod mewn stoc mewn rhyw fformat yn eich siop.*

- Os bydd holwr yn gofyn yn uniongyrchol i chi am eich barn neu'n gofyn i chi ddilysu barn benodol – 'Ydych chi'n credu bod y bardd yn golygu x?' – ceisiwch beidio rhoi eich barn ar unwaith, er mwyn i chi allu parhau i annog pobl i ymddiried yn eu syniadau eu hunain a syniadau eraill yn y grŵp. Dywedwch, 'Nid wyf wedi gallu penderfynu eto, beth ydych chi'n ei feddwl?', 'Mae hwnnw'n gwestiwn pwysig. Beth ydych chi / beth mae pawb arall yn ei feddwl?', a llywio'r drafodaeth yn ôl at y darllenwyr eraill.
- Os cynigir dwy farn ddilys ond cyferbyniol gan ddarllenwyr, ac os nad ydynt yn ymddangos yn gyfforddus yn trafod hyn (neu os ydynt yn gyfforddus iawn yn trafod, a bod angen i chi symud y drafodaeth yn ei blaen), yna ewch dros brif bwyntiau'r ddwy farn i gydnabod bod y ddwy yr un mor ddiddorol â'i gilydd, a manteisio ar y cyfle i bwysleisio y gellir cael mwy nag un dehongliad da, a gofyn a oes gan y darllenwyr eraill unrhyw safbwyntiau pellach.
- Er mwyn teimlo'n hyderus ynglŷn â llywio'r drafodaeth, ni ddylech ond cynnig cwestiynau er mwyn cadw'r sgwrs i fynd – bydd y grŵp yn darparu eu hatebion eu hunain, a'u cwestiynau eu hunain.

Diwedd glo

- Symudwch y drafodaeth am bob cerdd i'w therfyn drwy newid y math o gwestiynau yr ydych yn eu holi, neu'n ddelfrydol, drwy ofyn pa gwestiynau y mae'r darllenwyr eu hunain eisiau eu gofyn yn awr am y gerdd.
- Ceisiwch grynhof rhywfaint o'r drafodaeth; gallwch grybwyll rhai pwyntiau diddorol a wnaed, a cheisio cyfeirio at o leiaf un sylw a wnaed gan bawb.
- Cynlluniwch amser cwblhau ffurfiol, ond ychwanegwch amser ychwanegol i bobl bori drwy'r llyfrau.
- Ailadroddwch unrhyw negeseuon allweddol – digwyddiadau yn y dyfodol, adborth, y camau nesaf, rhestr bostio er mwyn cadw mewn cysylltiad.

Ôl-ofal

- Cynlluniwch unrhyw bost dilynol, gwybodaeth am y sesiynau nesaf, ceisiadau am adborth.
- Gwnewch nodyn i chi eich hun o sut yr aeth pethau, gan gynnwys unrhyw syniadau ar gyfer y tro nesaf.
- Proseswch unrhyw ystadegau, ffurflenni adborth neu sylwadau a'u ffeilio yn rhywle y gallwch chi a'ch cyd-weithwyr ddod o hyd iddynt.

Datblygwyd fformat grŵp darllen *'Nothing But The Poem'* gan **Lyfrgell Barddoniaeth yr Alban** er mwyn helpu i gynnal sesiynau trafod barddoniaeth buddiol a chyfeillgar, lle nad oes angen unrhyw brofiad neu wybodaeth flaenorol ar unrhyw un am y cerddi, ond lle gellir rhannu profiad a diddordeb.

Gweler isod am gwestiynau eraill a ddatblygwyd i lunio sgysiau cyfeillgar a chynhwysol am farddoniaeth

Cwestiynau i lunio stori, a ddatblygwyd ar gyfer *'Nothing but the poem'*

Eich dull paratoi pwysicaf yw paratoi cwestiynau a fydd yn dechrau eich trafodaeth. Mae angen i'r cwestiynau alluogi'r darllenwyr i wneud mathau gwahanol o waith yn ystod camau gwahanol yn eu darllen: eich nod yw symud y sgws yn raddol i bwynt lle, yn hytrach na chynnig atebion ac arsylwadau, bydd y darllenwyr eu hunain yn dechrau holi'r cwestiynau.

Rhai cwestiynau agoriadol defnyddiol

Sicrhewch fod y rhain yn ddigon penodol i bawb allu canolbwyntio arnynt, ond yn rhai a fydd yn caniatáu digon o atebion posibl.

'Pa synau / geiriau wnaeth dynnu eich sylw?' Bydd pob math o bethau yn deillio o hyn.

'Sut deimlad oedd darllen hynna?' Rythmau cryfion, ymadroddion sy'n glymau tafod, patrymau sy'n dod i'r amlwg?

'Pwy/beth/lle/pryd ...?' Mae rhai cerddi yn ddryslyd i ddechrau – dylech gydnabod hynny, a threulio ychydig o amser yn datrys pos penodol.

Neu ganolbwyntio ar y gerdd benodol dan sylw:

'Pa fath o daith sydd yn y gerdd hon?'

'Beth yw eich ymateb cyntaf i hyn – a ydych chi'n teimlo y gallai fod yn gerdd am X, neu'n fwy am Y?' pan fydd gan gerdd fwy nag un pwnc amlwg. Pwysleisiwch mai'r argraff gyntaf yw hon, a dychwelwch at y cwestiwn hwn yn agos at ddiwedd y sesiwn i weld pwy sydd wedi newid eu meddwl.

(Dylech osgoi cwestiynau mawr, cyffredinol fel 'wnaethoch chi hoffi hyn?', 'am beth mae'n sôn', neu 'sut mae hyn yn gwneud i chi deimlo?' fel cwestiynau cynnar. Ar y cam hwn, mae'n anodd ateb y rhain yn effeithiol a gallent ddod â sgws i ben, neu wneud i bobl fabwysiadu agwedd amddiffynnol na allant ei hesbonio eto; cadwch y rhain at y diwedd, pan fydd pobl wedi cael cyfle i ystyried beth maent yn ei feddwl a pham.)

Gwnewch yn siŵr bod gennych rai cwestiynau pellach i'w holi ...

'Lle mae'r gerdd hon yn dechrau, a lle mae'n gorffen?' (Lleoedd, awyrgylch neu gysyniadau)

'Lle – yn eich barn chi – mae'r gerdd yn newid cyfeiriad?' (gall y darllenwyr nodi delwedd benodol neu air hyd yn oed, ac mae hyn yn aml yn amrywio o ddarllenydd i ddarllenydd).

Rhowch gymorth i'r bobl archwilio synau a siâp/y addeddangosiad y gerdd. Mae'n hawdd rhuthro heibio'r rhain!

'A oes yna unrhyw syniadau pwysig pellach yn y gerdd – wrth i chi ei darllen fwyfwy, beth arall mae'n gwneud i chi ei holi?'

Ystyriwch rai cwestiynau i gloi

Holwch am y llinellau olaf.

Gofynnwch am berthnasedd teitl y gerdd.

Ystyriwch ailadrodd cwestiwn o ddechrau'r drafodaeth: a yw pobl yn teimlo'n wahanol yn awr?

'A yw hon yn gerdd y byddech yn ei rhoi i rywun arall, a pham?'

'Pa rai o'r cerddi hyn sy'n apelio fwyaf atoch chi / pa rai ydych chi'n eu hoffi leiaf?'

'Beth – yn eich barn chi – yw'r cwestiwn/cwestiynau pwysicaf i'w holi am y gerdd hon?'



Cerddi i'w rhannu

Gallwch ddewis o blith y llyfrau barddoniaeth gorau ar wefan Gwales.Cymru. Yn eu plith mae detholiadau gwyb megis:


Safleoedd eraill sy'n werth ymweld â hwy:

[Barddas](#)


[Cerddi Cymru](#)

[Y Talwrn](#)

[Bardd y Mis Radio Cymru](#)



Diolch i'r bardd, yr artist a Llysgennad **Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth Sophie Herxheimer** am greu pedwar poster arbennig **Poetry Social**. Gallwch lawrlwytho'r rhain oddi ar wefan Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth.



© Sophie Herxheimer for National Poetry Day 2018

www.nationalpoetryday.co.uk

#DiwrnodBarddoniaeth

